***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 1313

# Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005

## RHAN 3

## DYLETSWYDDAU ASIANTAETH FABWYSIADU OS YW'R ASIANTAETH YN YSTYRIED MABWYSIADU AR GYFER PLENTYN

### Gofyniad i gael gwybodaeth am y plentyn (gan gynnwys gwybodaeth am ei iechyd)

**15.**—(1) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, gael gafael ar yr wybodaeth am y plentyn a bennir yn Rhan 1 o Atodlen 1.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu —

(a) gwneud trefniadau i'r plentyn gael ei archwilio gan ymarferydd meddygol cofrestredig; a

(b) cael adroddiad ysgrifenedig gan yr ymarferydd hwnnw ar gyflwr iechyd y plentyn a rhaid iddo gynnwys unrhyw driniaeth y mae'r plentyn yn ei chael, anghenion y plentyn am ofal iechyd a'r materion a bennir yn Rhan 2 o Atodlen 1,

oni chafodd yr asiantaeth gyngor gan y cynghorydd meddygol nad oes angen yr archwiliad a'r adroddiad hwnnw.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu wneud trefniadau —

(a) bod archwiliadau meddygol a seiciatryddol eraill, a phrofion eraill, yn cael eu cyflawni ar y plentyn yn ôl argymhelliad cynghorydd meddygol yr asiantaeth; a

(b) cael gafael ar adroddiadau ysgrifenedig o'r archwiliadau a'r profion hynny.

(4) Nid yw paragraffau (2) a (3) yn gymwys os yw'r plentyn yn deall digon i wneud penderfyniad seiliedig ar wybodaeth ac yn gwrthod cael archwiliadau neu brofion eraill.